

Hysbysiad preifatrwydd yr ASB: Yr Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd

Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd wedi cofrestru â'r Comisiynydd Gwybodaeth fel 'Rheolydd Data' fel y'i diffinnir yn Neddf Diogelu Data 1998. Mae Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd yr Asiantaeth yn trin data personol at ddibenion:

Atal a chanfod troseddau bwyd, gan gynnwys erlyn troseddwyr

Er mwyn cyflawni'r dibenion hyn, efallai y bydd yr Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd weithiau'n dymuno datgelu data personol i drydydd partïon. Gall hyn gynnwys datgeliadau i'r:

Heddlu, Safonau Masnach, Iechyd yr Amgylchedd neu Asiantaethau Gorfodi Cyfraith y Deyrnas Unedig, yr Undeb Ewropeaidd neu Asiantaethau Rhyngwladol eraill.

Rydym yn ceisio caniatâd fel y gellid rhannu'ch manylion, ar adegau prin iawn, gydag eraill sy'n gyfrifol am orfodi'r materion yr ydych yn rhoi gwybod amdanynt.

Bydd pob datgeliad o'r fath yn cydymffurfio â Deddf Diogelu Data 1998.